

Mai 2015

Iechyd a Gofal yng Ngwynedd - rhoi'r cwsmer yn ganolog

Mae'r nodyn hwn yn trafod cynllun sy'n edrych ar wasanaethau cymdeithasol a iechyd a'r plethiad rhwng y gwasanaethau. Lansiodd y gwaith yn hydref y llynedd gan gychwyn peilot ddechrau'r flwyddyn, gyda tîm o weithwyr Cyngor ac o'r Gwasanaeth Iechyd yn gweithio o Ysbyty'r Alltwen, Tremadog. Mae'r canlyniadau cynnar yn addawol ac yn sail ar gyfer ehangu'r gwaith.

Cefndir

Gwaith ar y cyd rhwng yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw hwn i edrych ar wasanaethau amhariad corff a gwasanaethau i bobl hŷn.

Y nod yw canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cleient ac osgoi sefyllfa ble mae methiant yn arwain at yr un person yn cael ei ail-asesu neu ail-gyfeirio at y gwasanaeth dro ar ôl tro.

Drwy weithredu ar sail anghenion yr unigolyn, y bwriad yw torri'r tueddiad hanesyddol o roi person mewn 'bocs' neu 'gategori' er mwyn cyfleuster gwasanaethau cyhoeddus er gwaethaf gwir anghenion y person.

Dyweddodd y Cyngorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet y Cyngor dros Wasanaethau Oedolion, Iechyd a Lles:

"Yn anffodus, mae trefniadau gwaith yn aml fel pe byddent yn llesteirio yn hytrach na chefnogi staff wrth eu gwaith. O dan y cynllun peilot, roedd y tîm gwaith o'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn dod i ddeall oblygiadau'r trefniadau gwaith presennol ac yn cychwyn adeiladu system waith newydd sydd yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig i'r client.

Mae'r gwaith yma wedi gweld newid cyfeiriad sylweddol yn nhrefniadau gwasanaethau iechyd a gofal ble rydym yn rhoi dymuniadau'r claf yn ganolog i'n gwaith ac yn addasu'r gwasanaeth o gwmpas anghenion y person. Drwy ehangu ein dealltwriaeth a'n profiadau o fewn y maes mae ffyrdd gwahanol a gwell o ddarparu gwasanaethau yn dod i'r amlwg. Yn lle glynu wrth yr un hen ffordd o wneud pethau rydym yn addasu ein trefniadau er mwyn rhoi'r cleient yn ganolog i'r gwaith.

Yn y pen draw, mae hyn yn golygu fod pawb ar ei ennill – mae'r cleient yn cael gwell gwasanaeth ac mae gwasanaethau cyhoeddus yn gallu ateb anghenion yn gynt ac o fewn cyllidebau caeth."

Sut y cyflwynwyd y newid

O dan y cynllun peilot, sefydlwyd trefniadau gwaith newydd. Er enghraifft, roedd yn bwysig fod y tîm yn cadw mewn cof beth yw pwrpas eu gwaith, sef i helpu pobl fregus i fyw eu

bywydau fel maen nhw eisiau ei fyw a diffiniwyd ffordd o weithio lle gall staff ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig i'r client. Mae'r tîm yn arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o weithio ac yn dysgu drwy brofiad.

Trefniadau newydd yn dwyn ffrwyth

Fel rhan o'r drefn newydd, mae'r newidiadau canlynol yn dwyn ffrwyth:

- Gweithwyr rheng flaen sydd yn arwain y newid ar sail profiad o achosion go iawn
- Un tîm o weithwyr o'r gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth gofal cymdeithasol yn gweithio o ysbyty cymunedol
- Pawb yn gweithio ar yr un system Technoleg Gwybodaeth
- Cynllun fydd yn arwain yn y pen draw at lai o waith papur a mwy o amser i'w dreulio gyda chleientiaid
- Yr un person yn dal yr holl elfennau o hanes yr unigolyn ac yn gallu tynnu'r arbenigedd perthnasol i mewn ar yr adeg iawn
- Mesurau sydd yn ein galluogi i ddeall a gwella
- Sgiliau sydd yn helpu pobl i helpu eu hunain ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus.

Camau nesaf

Bydd y cynllun yn symud ymlaen yn raddol i dderbyn y cyfeiriadau i gyd o feddygfeydd Blaenau, Penrhyndeudraeth, Porthmadog a Chriccieth; gan gychwyn yn ardal Eifionydd. Bydd mwy o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu tynnu i mewn i'r tîm i wasanaethau'r ardaloedd hyn.

Bydd y tîm hefyd yn profi'r ffordd newydd o weithio gyda niferoedd uwch ac amrywiaeth ehangach o achosion ac yn adeiladu ar gryfderau unigolion a chymunedau.

Ychwanegodd y Cynghorydd Gareth Roberts: *"Mae'r cynllun hwn yn Alltwen gan ein bod wedi llwyddo i roi theori Ffordd Gwynedd ar waith yn y byd go iawn. Rydym wedi dysgu llawer o'r gwaith, megis dechrau ydyn ni ond mae'r arwyddion cynnar yn addawol ac mae'n fwriad gan y Cyngor edrych ar feysydd eraill lle gallwn newid ein ffordd o weithio i roi'r cwsmer yn ganolog i'n gwaith."*

Gwersi a ddysgwyd o'r prosiect

Rhoi'r cleient / claf yn y canol: Er mwyn mynd i'r afael â gwir angen y cleient, mae angen Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond mae gan y ddau sefydliad flaenoriaethau gwahanol. Mae ganddynt eu cyllidebau a'u strwythurau rheolaethol eu hunain ac yn aml dydy'r amcanion ddim wedi eu seilio ar beth sydd yn bwysig i'r client/claf. Gall hyn arwain at sefydliadau'n gweithio'n groes i'w gilydd.

Sefydlu angen y claf / cleient o'r cychwyn cyntaf: Cyn cyflwyno'r newidiadau, roedd peryg i'r un bobl fod yn dod yn ôl at y gwasanaeth gan na gymerwyd digon o amser ar y cychwyn i ddeall beth sy'n bwysig. Cafwyd un enghraifft ddiweddar ble nodwyd ymholiad fel mater tai nad oedd yn flaenoriaeth i'r tîm. Ond wedi treulio amser gyda'r unigolyn daeth yn amlwg ei fod yn berson bregus gyda phroblemau cymhleth.

Dileu biwrocratiaeth ddiangen: Mae gwaith papur yn gallu llesteirio ymdrechion staff i gwrdd ag anghenion y cwsmer - yn y prosiect penodol hwn gwelwyd fod gwaith papur yn ormodol, er enghraifft ffurflen gyda thros 100 o dudalennau i'w llenwi ar gyfer pedair awr o ofal nyrsio yn y cartref. Byddai cyllidebau ar y cyd, gwella cyd-weithio ac ymddiried mewn staff rheng flaen gweithwyr i wneud y peth iawn ar sail eu dealltwriaeth yn golygu llai o amser yn llenwi ffurflenni a mwy o amser yn gweithio tuag at y nod o gefnogi pobl fregus.

Mae deall y gwir angen o'r cychwyn yn gallu arbed arian: O'r 25 o achosion y mae'r tîm wedi bod yn delio a hwy hyd yn hyn, mae'n dod yn amlwg bod yna ffyrdd creadigol ac amrywiol y medrwn gwrdd ag anghenion pobl, ac nad yw pecyn gofal cartref traddodiadol neu leoliad mewn cartref preswyl neu nyrsio wastad yr ateb gorau. Mae'n ddyddiau cynnar, ond mae'r canlyniadau yn awgrymu y gallai buddsoddi ar y cychwyn i ddeall beth sydd yn bwysig i'r unigolyn arwain at gomisiynu llai o'r gwasanaethau traddodiadol drud. Er enghraifft byddai gosod lifft grisiau yng nghartref y claf yn eu galluogi i fynd yn syth adref o Ysbyty Gwynedd heb orfod treulio cyfnod mewn ysbyty gymuned.

Wrth i'r gwaith ddatblygu, rydym yn casglu tystiolaeth am y mathau o ganlyniadau y mae pobl yn dymuno eu gwireddu, a sut y gallwn ni fel cyngor, ar y cyd â'n partneriaid ddiwallu'r gofynion yn y ffordd orau. Bydd cynnal perthynas agos hefo cymunedau lleol, asiantaethau trydydd sector a darparwyd preifat yn rhan annatod o'r gwaith hwn.

Rhannu syniadau

Os oes gennych chi syniadau, cofiwch eu rhannu â ni, fel y medrwn, gyda'n gilydd, wella ansawdd bywydau pobl yng Ngwynedd. A fyddech cystal a'u rhannu drwy e-bostio yr holl wybodaeth berthnasol i TeleriSamuelToohill@gwynedd.gov.uk